

The Owner / Occupier

Fy Nghyf/ My Ref:IF094

Dyddiad/ Date: 24 January 2020

Dear Sir / Madam,

PROPOSED RESIDENTS PARKING RIVER VIEW TONYPANDY

You may recall the council previously consulted on proposals to amend the existing residents parking arrangements in River View, Tonypandy.

Three possible options were proposed;

Option 1 Restrict all parking to Residents Only

Option 2 Retain Residents Parking on the southern side and provide shared Limited Waiting / Residents parking on the northern side.

Option 3 Keep existing arrangement

15 letters were delivered and 9 responses received. Six respondents favoured Option 1, two favoured Option 2 and one favoured Option 3.

From the responses received, option 1 would appear to be the preferred option with 40% of residents indicating their support. Therefore, it is proposed to carry out further consultation with residents on the proposed introduction of residents only parking in River View. However, it is important to note that in order for the council to be able to proceed with the introduction of residents parking, more than 50% of residents of a street need to respond in favour of the proposals in order for any scheme to be progressed. If we do not receive the required level of support, the existing arrangement will remain in place.

Further to the above, should any changes be made, the existing signing will be changed to reflect this.

There are no proposals to remove any of the existing waiting restrictions which are necessary to maintain the free flow of traffic and prevent obstruction.

Details of the new proposals are shown on the attached drawings T2019/69/1. You may also view the proposals at www.rctcbc.gov.uk/traffic

I shall be pleased to receive your observations on these proposals. For your convenience, a pro forma and postage paid addressed envelope is enclosed. Alternatively you may wish to respond by e-mail to; trafficservices@rctcbc.gov.uk Responses should be returned with your observations by 14 February 2020. If I do not hear from you by that date, I shall assume that you have no comment to make on the proposals.

Your comments are important to us and will help the Council in its decision making process. Any comments received will help us decide whether to make changes to the proposals and all observations relating to the scheme will be taken into consideration, however the Council will make no formal response to your comments at this stage.

Yours faithfully

Andrew McGowan, Senior Engineer, Traffic Management

Tŷ Sardis/Sardis House
Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001

Nigel Wheeler B.Sc(Hons)
Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng Flaen | Group Director – Prosperity, Development & Frontline Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhwch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and responding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection



Y Perchennog/Preswylydd

Fy Nghyf/My Ref:IF094

Dyddiad/Date: 24 Ionawr 2020

Annwyl Syr/Fadam,

PARCIO ARFAETHEDIG AR GYFER PRESWYLWYR - RIVER VIEW TONYPANDY

Mae'n bosibl eich bod yn cofio i'r Cyngor drafod cynigion yn ddiweddar i ddiwygio trefniadau parcio preswylwyr presennol yn River View, Tonypandy.

Cafodd tri opsiwn eu cynnig;

Opsiwn 1 - Gwneud pob lle parcio yn ardal i Breswylwyr yn Unig

Opsiwn 2 - Cadw Parcio i Breswylwyr yn unig ar yr ochr ddeheuol a darparu cymysgedd o ardaloedd i Breswylwyr yn Unig a lleoedd aros cyfyngedig ar yr ochr ogleddol.

Opsiwn 3 - Cadw'r trefniant presennol

Cafodd 15 o lythyron eu dosbarthu a daeth 9 ymateb i law. Roedd yn well gan chwech o'r bobl a ymatebodd Opsiwn 1, ac roedd yn well gan ddu Opsiwn 2 ac roedd un o blaid Opsiwn 3.

O'r ymatebion a ddaeth i law, mae'n ymddangos mai opsiwn 1 yw'r opsiwn mwyaf poblogaidd, gyda 40% o'r preswylwyr yn nodi eu cefnogaeth. Felly'r bwriad yw cynnal ymgynghoriad pellach â thrigolion ar gyflwyno parcio i breswylwyr yn unig yn River View. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod angen i dros 50% o drigolion y stryd ymateb o blaid y cynigion er mwyn i unrhyw gynllun gael ei ddatblygu ac er mwyn i'r Cyngor allu cyflwyno parcio i breswylwyr. Os nad ydyn ni'n derbyn y lefel o gefnogaeth sydd ei hangen, bydd y trefniant presennol yn aros yn ei le.

Yn ogystal, byddai'r arwyddion presennol yn cael eu newid pe bai unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud yn yr ardal.

Does dim cynigion i gael gwared ar unrhyw un o'r cyfyngiadau aros presennol sy'n angenrheidiol i gynnal llif y traffig ac atal rhwystrau.

Mae manylion y cynigion newydd i'w gweld yn llun T2019/69/1, sydd ynghlwm. Mae'r cynlluniau arfaethedig i'w gweld ar ein gwefan www.rctcbc.gov.uk/traffig

Hoffwn i gael eich sylwadau ynglŷn â'r cynigion yma. Rydw i wedi cynnwys ffurflen ac amlen barod er hwylustod i chi. Fel arall, efallai hoffech chi ymateb drwy anfon neges ebost i gwasanaethau traffig@rctcbc.gov.uk. Anfonwch eich sylwadau aton ni erbyn 14 Chwefror 2020. Os na fydd i wedi clywed oddi wrthoch chi erbyn hynny, byddai i'n ei chymryd hi'n ganiataol bod dim barn gyda chi ar y cynigion.

Mae'ch sylwadau chi'n bwysig i ni a byddan nhw o gymorth i'r Cyngor yn ystod y broses o ddod i benderfyniad. Bydd unrhyw sylwadau sy'n dod i law yn ein helpu ni i benderfynu a fydd eisiau gwneud unrhyw newidiadau i'r cynigion. Byddwn ni'n ystyried yr holl sylwadau ynglŷn â'r cynllun, ond fydd dim ymateb ffurfiol iddyn nhw yn ystod y cyfnod yma.

Yn gywir,

Andrew McGowan, Uwch Beiriannydd, Materion Rheoli Traffig

Tŷ Sardis/Sardis House

Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU
Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

Ffôn/Tel: 01443 425001

Nigel Wheeler B.Sc(Hons)

Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng Flaen | Group Director – Prosperity, Development & Frontline Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and responding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection

